# Mynychu eich apwyntiad dros fideo

## Rheoli Pwysau Oedolion

Pan fo hynny'n briodol, gallwch fynychu eich ymgynghoriad ar-lein dros alwad fideo.

Mae galwad fideo yr un mor gyfleus â galwad ffôn ond gyda'r fantais o allu cyfathrebu wyneb yn wyneb.

Gall arbed amser ac arian, ac mae'n dod a'ch gofal yn nes at y cartref.

I ble mae angen i mi fynd er mwyn mynychu fy apwyntiad?

Ewch i: https://nhswales.vc/abb-awm

Yn hytrach na theithio i'ch apwyntiad rydych yn mynd i mewn i fan aros y clinig. Mae'r gwasanaeth iechyd yn cael gwybod eich bod wedi cyrraedd a bydd eich clinigydd yn ymuno â chi pan fyddant yn barod.

Nid oes angen creu cyfrif.

Ni fydd unrhyw ran o'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu'n cael ei storio.

Beth sydd ei angen arnaf i wneud galwad fideo?

- ✓ Cysylltiad da i'r rhyngrwyd
  Os ydych yn gallu gwylio fideo ar-lein (e.e. ar YouTube) yna gallwch wneud galwad fideo
- ✓ Man preifat sydd wedi'i oleuo'n dda na fydd unrhyw un yn tarfu arnoch yno yn ystod yr ymgynghoriad
- ✓ Un o'r rhain:

  Porwr gwe Google Chrome ar fwrdd gwaith neu liniadur, neu ar dabled Android neu ffôn clyfar

  Porwr gwe Safari ar Apple iMac, MacBook, iPad neu iPhone
- ✓ Gwe-gamera, seinyddion a meicroffon sydd wedi'u hadeiladu i mewn i liniaduron a dyfeisiadau symudol

A yw'n ddiogel?

Mae galwadau fideo yn ddiogel; mae eich preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Byddwch yn eich ystafell fideo breifat eich hun a dim ond clinigwyr awdurdodedig a all ddod i mewn iddi.

Faint o Ddata fydd angen i mi ei ddefnyddio?

Ni fyddwch yn defnyddio data tra byddwch yn aros i'r clinigydd ymuno â chi.

Mae galwad fideo yn defnyddio o gwmpas yr un faint o ddata a Skype neu FaceTime

Faint mae galwad fideo yn ei chostio?

Mae'r alwad fideo am ddim

(ar wahân i'ch defnydd o'r rhyngrwyd)

Defnyddwyr Tabled a Ffôn Clyfar

Os yn bosibl, cysylltwch â Wi-Fi cartref neu Wi-fi gwaith er mwyn osgoi defnyddio eich data symudedd

Gweler dros y dudalen am fwy o wybodaeth am sut i wneud galwad fideo

## Paratoi i wneud galwadau fideo

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio un o'r porwyr gwe canlynol

**Google Chrome**
Windows 7+, Android 5.1+, MacOS 10.11+, iPadOS 13+

**Apple Safari**
MacOS 10.12+, iOS 11.4+, iPadOS 13+

Ewch i: https://nhswales.vc/abb-awm

**1**

Ar y dudalen we yma, cliciwch ar y botwm **Cychwyn galwad fideo** a dilynwch y cyfarwyddiadau

→

**2**

Arhoswch yn eich ystafell fideo breifat eich hun

→

**3**

Bydd eich darparwr gofal iechyd yn gweld eich bod yn aros yn y man aros

...a byddant yn ymuno â chi yn yr ystafell fideo pan fyddant yn barod

### Beth sydd angen i mi ei wneud os oes rhywbeth ddim yn gweithio?

Ewch i: https://wales.nhs.attendanywhere.com/troubleshooting

### Mwy o wybodaeth

Ewch i: https://wales.nhs.attendanywhere.com/callers